

Facebook

Ers rhai wythnosau hefyd mae gennym dudalennau *Facebook* ar gyfer eglwysi'r Ofalaeth.

Bwriedr eu defnyddio i dynnu sylw at waith yr eglwysi.

Dyma fanylion y tudalennau a grewyd hyd yma.

Capel Coch: 'Capel Coch Llanberis'

Carmel: 'Capel Carmel, Llanllechid'

Bethlehem: 'Capel Bethlehem, Talybont'

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Medi 4: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Medi 4: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan.

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 4: Gwasanaethir am

2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Medi 4: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan Mr Dafydd Iwan, Caerathro.

CARMEL

Dydd Sul, Medi 4: Gwasanaethir yn yr oedfa Gymundeb am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.



Cyfarfod Blynyddol
yng Nghapel y Rhos, Llanrug
Nos Lun, Medi 26
7.00 o'r gloch

Y mis nesaf - Deiniolen

Awst 28

5.00 p.m. - Y Parchg Gwynfor Williams

Medi 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Medi 11

5.00 p.m. - Y Parchg Idris Thomas

Medi 18

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Awst 28

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Medi 4

10.00 a.m. a 5.00 p.m.
- Y Parchg Eifion Williams

Medi 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Medi 18

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts
5.00 p.m. - Oedfa yng ngofal aelodau
Parti Bytholwyrdd



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 694: Dydd Sul, 28 Awst, 2016

Llun o'r albwm

Hillary ac yntau adeg y briodas ac nad oedden nhw'n nabod Mr Trump yn dda o gwbl! Nid felly y mae Trump yn ei gweld hi. Mae o'n honni iddo wahodd Hillary i'r briodas ac nad oedd modd iddi hi wrthod dod am ei fod o'n cyfrannu'n hael at ei gwaith elusennol!

Ond wrth gwrs, mi allai'r llun fod yn debyg i'r lluniau hynny sy'n llechu yn albwm priodas llawer o bobl: lluniau o bobl y collwyd cysylltiad â nhw ers dydd y briodas. Yn aml, amgylchiadau sy'n gyfrifol, wrth i hen ffrindiau fynd i wahanol gyfeiriadau. Ond ambell dro, collir y cysylltiad oherwydd rhyw ffrac neu ddadl a fu'n ddigon i chwalo perthynas a chyfeillgarwch. Mae wynebau cyfarwydd lluniau'r albwm wedi mynd yn wynebau dieithr, a gwên a chwerthin iach hen ffrindiau wedi troi'n eiriau cas neu'n fudandod styfnig gyda threigl y blynyddoedd.

Synnwn i ddim na welwn ni'r Trumps a'r Clintons yn gwenu o fewn yr un llun eto – wedi i'r Etholiad fynd heibio mae'n debyg, yn arbennig os bydd rhyw elw gwleidyddol neu ariannol i'w gael. Ond yn y byd real, mae angen mwy na hynny. Pan fo perthynas wedi chwalo, mae angen cymod. Er mwyn cael hwnnw, mae angen edifeirwch; ac mae angen maddeuant. Ond cyn y ceir y pethau hynny, mae angen Efengyl; yr Efengyl sy'n ein cymodi â Duw ac yn gwneud cymod ag eraill yn bosibl. A lle bynnag y ceir y cymod hwn trwy Iesu Grist, ceir gwir berthynas o gariad yn hytrach na gwên a geiriau ffals.

Wedi cael ein gwala o etholiadau yr ochr yma i'r Iwerydd eleni, cawn hoelio'n sylw dros y deufis nesaf ar yr Etholiad Arlywyddol yr ochr draw. Nid ei bod yn fwiad gennyf i roi sylw wythnosol i'r syrcais honno chwaith. Ond wedi gweld y llun uchod y dydd o'r blaen, fedrwn i ddim peidio â gwenu a rhoi sylw iddo.

Ond dydi o'n llun da? Mae'n hen lun, cofiwch. Fe'i tynnwyd ddechrau 2005 ddiwrnod priodas Donald a Melania Trump. Dyna nhw'r pâr priod y naill ochr a'r llall i Hillary a Bill Clinton. Mae'r priodfab yn cyflwyno'r ddau i'w wraig newydd, a'r Clintons hwythau'n edrych yn llawn edmygedd arno yntau. Ac yn naturiol ddigon ar ddydd priodas mae pawb yn gwenu – a phawb yn ffrindiau.

Yng nghanol holl gecru'r ymgyrchu etholiadol, mae'r llun hwn yn hynod o ddi-ddorol. Be wnewch chi o'r ffordd y mae Mr Trump a Mrs Clinton yn lladd ar ei gilydd o'u gweld mor gysurus yng nghwmni ei gilydd yn y llun? Ai un ddrama fawr yw'r holl eiriau cas a glywsom eleni? Ydi'r ddau brif actor yn ffrindiau mynwsol wedi'r cyfan? Mae rhai wedi awgrymu hyd yn oed mai cynllwyn digywilydd fu ymgyrch drwsgl Trump er mwyn sicrhau y bydd y Clintons yn dychwelyd i'r Tŷ Gwyn.

Tipyn o embaras fu'r llun i garfan Hillary Clinton. Ceisiodd Bill Clinton gyfiawnhau'r llun trwy ddweud mai digwydd bod yn y cyffiniau oedd

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Yr ARGLWYDD yw fy
ngoleuni a'm gwaredigaeth,
rhag pwy yr ofnaf?



BEIBL BYW

Yr ARGLWYDD yw cadernid fy
mywyd, rhag pwy y dychrynaf?
Un peth a ofynnais gan yr ARGLWYDD,
dyma'r wyf yn ei geisio; cael byw yn
nhy'r ARGLWYDD holl ddyddiau fy
mywyd, i edrych ar hawddgarwch yr
ARGLWYDD ac i ymofyn yn ei
deml' (Salm 27:1 a 4).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan y Parchg Gwynfor Williams,
Caernarfon.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nhalybont nac yn Nant
Peris heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod
yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Anfonwn ein cofion cynhesaf a'n
dymuniadau gorau i bob un ohonynt.

Angladd

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Augusta
Williams, 7 Bron Arfon, Llanllechid yn
ei phrofedigaeth o golli ei mab hynaf,
Emlyn Williams, 2 Parc Moch, Bethesda.
Bu farw Emlyn yn 60 mlwydd oed ar
Awst 19.

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd yng
nghartref ei fam ac yn Amlogsgfa Bangor
ddydd Gwener, Awst 26 dan arweiniad y
Gweinidog.

Anfonwn ein cofion at ei ferch Debbie
a'i theulu, ei frodyr Richard a Glyn a'u
teuluoedd a'r teulu cyfan yn eu hiraeth.

Cydymdeimlo

Bu farw'r Parchg Huw Gwynfa Roberts,
Cil y Gors, Llanrug yng Nghartref Plas
Garnedd, Pentraeth ar Awst 18 yn 89
mlwydd oed. Cydymdeimlwn â'i feibion
Iwan a Dylan a'r teulu cyfan.

Bu Mr Roberts yn gwasanaethu eglwysi'r
Ofalaeth yn gyson wedi iddo symud i'w
Ofalaeth olaf yn ardal Y Groeslon o
Fanceinion oddeutu deng mlynedd ar
hugain yn ôl. Roedd cysylltiadau teuluol
â Llanberis trwy ei ddiweddar briod Mair

yn golygu bod tynfa naturiol i Gapel
Coch ar hyd y blynyddoedd. Roedd bob
amser werthfawrogiad o'i wasanaeth, a
chofir amdano am ei ostyngeddwrwydd
a'i hynawsedd a'i anwylydeb. Roedd yn
wr bonheddig, ac wrth ei waith yn fugail
da i'r eglwysi a fu dan ei ofal. Daliodd i
wasanaethu'r eglwysi wedi iddo ymddeol
nes i'w iechyd ddirywio. Diolchwn i
Dduw amdano a'i ffyddlondeb yng
ngwaith yr Arglwydd Iesu. Cynhelir ei
angladd ddydd Mawrth, Awst 30, yng
Nghapel y Rhos, Llanrug am 12.00 o'r
gloch ac yna yn yr Amlogsgfa ym Mangor
am 1.30 o'r gloch.

Y Ffordd

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
wedi cyhoeddi cynllun newydd y gall yr
eglwysi ei ddefnyddio er mwyn ceisio
meithrin ffydd a hyder at y blynyddoedd
nesaf. Bydd cynllun 'Y Ffordd' yn cael
ei gyflwyno i'r eglwysi ledled Cymru
mewn dau gyfarfod sydd i'w cynnal y
mis nesaf. Bydd cyfle i bobl y Gogledd
glywed am y cynllun mewn cyfarfod a
gynhelir yng Nghapel Coffa, Cyffordd
Llandudno am 7.00 o'r gloch, nos Iau,
Medi 15.

Bydd y cynllun yn trafod y canlynol:

1. Ffyrdd trwy'r Beibl
2. Y Ffordd y daethom
3. Tystiolaeth Pobl y Ffordd
4. Gofal Pobl y Ffordd

Yn ystod y flwyddyn gyntaf bydd y
pwyslais ar Y Beibl a Sefeiini'r Ffydd.

Hyd yma, nid ydym wedi gweld dim o'r
deunyddiau a baratowyd ar gyfer y cwrs
neu'r cynllun hwn. Yn amlwg, fe geir
rhagor o wybodaeth yn y cyfarfod yng
Nghapel Coffa, ac edrychwn ymlaen at
gael gweld wedyn pa ddefnydd y gallwn
ei wneud o'r cyfan o fewn yr Ofalaeth.
Bydd croeso i bawb i'r cyfarfod hwnnw
ar Fedi 15.

Llongyfarchiadau

Roedd John a Mattie Hughes, 8 Ffordd
Capel Coch, Llanberis yn dathlu eu
Priodas Ddiemwnt – sef 60 mlynedd o
fywyd priodasol – yn ystod yr wythnos.
Llongyfarchiadau mawr iddynt, a phob
bendith.

Cyfarfod Blynyddol Efe

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cynllun
Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug am
7.00 o'r gloch, nos Lun, Medi 26.

Yn ystod y cyfarfod cawn glywed am
waith Efe dros y flwyddyn ddiwethaf, a
bydd cyfle i drafod unrhyw syniadau ar
gyfer y gwaith i'r flwyddyn nesaf.

Eleni eto, y gobaith yw y bydd modd i
bob eglwys o fewn dalgylch Efe anfon o
leiaf un cynrychiolydd i'r cyfarfod hwn.

Gwefan

Cofiwch fod gan yr Ofalaeth wefan sy'n
cynnwys gwybodaeth am yr eglwysi a'u
gwaith. Mae copi o *Gronyn* yn cael ei
osod ar y wefan bob nos Sul, ac felly os
na chawsoch gopi yn y capel am unrhyw
reswm mae modd ei ddarllen ar y wefan.

Bocs bwyd

Rydym yn dal i dderbyn bwydydd yn
Capel Coch at Fanc Bwyd Caernarfon.

Clywsom lawer dros y misoedd diwethaf
am y defnydd cynyddol a wneir o'r Banc
Bwyd ar draws y wlad. Mae hwn wedi
datblygu yn wasanaeth gwerthfawr ac yn
gymorth mawr i deuluoedd ac unigolion
sy'n cael trafferth o bryd i'w gilydd i
brynu bwyd.

Gallwch roi'r bwydydd yn y bocs casglu
sydd yng nghyntedd Capel Coch.